

Myfyrdodau

Mae'n debyg mai 17fed darlith flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig a ddenodd y gynulleidfâ fwyaf hyd yma. Ymgasglodd rhyw 300 o unigolion yn Neuadd Arholiadau Hen Goleg y Brifysgol, Aberystwyth, ar nos Wener, 7 Tachwedd 2003 am 5.30 pm. Nid oedd hynny'n syndod i neb gan mai'r darlithydd gwadd oedd Mr Ron Davies, Ysgrifennydd Gwladol Llafur dros Gymru, 1997-98, un o benseiri amlycaf y Cynulliad Cenedlaethol a'r person cyntaf i ddal y swydd o Brif Weinidog y Cynulliad.

Ac yntau'n frodor o Fachen yng Ngwent, addysgwyd Ron Davies ym Masaleg, Portsmouth a Chaerdydd. Enillodd ei fywoliaeth fel athro ysgol, tiwtor/trefnydd ar ran Cymdeithas Addysg y Gweithwyr a chynghorydd addysg bellach tra'n bwrw prentisiaeth wleidyddol yr un pryd. Ymunodd â'r Blaid Lafur pan yn 19 oed, ac o fewn pedair blynedd yn unig etholwyd ef yn gynghorydd lleol ar gyfer Bedwas a Machen. Cafodd ei ethol yn AS Llafur Caerffili ym 1983, daliodd nifer o swyddi grymus o fewn Cabinet yr Wrthblaid, a phenodwyd ef yn Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru pan ddychwelodd y Blaid Lafur i rym ym mis Mai 1997.

Ac yntau'n frwd ei gefnogaeth i ddatganoli byth ers ei ieuencid, Ron Davies oedd yn bennaf gyfrifol am lywio Mesur Llywodraeth Cymru drwy'r senedd a chyd-gysylltu'r ymgyrch a arweiniodd at bleidlais 'Ie' o drwch blewyn yn refferendwm 1997. Roedd felly ym merw digwyddiadau hynod gyffrous ar adeg dyngedfennol yn ein hanes a gwasanaethodd fel aelod o'r Cynulliad drwy gydol ei dymor cyntaf (1999-2003). Yn dilyn ei ymddiswyddiad fel ymgeisydd yn 2003, roedd ganddo'r rhyddid i lefaru fel dinesydd preifat.

Mewn darlith ddeifiol, feirniadol ar adegau, dadansoddodd Ron Davies agwedd llywodraeth Tony Blair at ddatganoli, ac edrychodd ar y digwyddiadau cymhleth a arweiniodd at sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol ym 1999. Edrychodd ar ddylanwad y Cynulliad hyd yma ynghyd â rhai o bolisiau mwyaf arwyddocaol y grŵp Llafur, gan awgrymu gwelliannau iddynt. Soniodd hefyd am syniadau ynghylch cenedligrwydd yng Nghymru a swyddogaeth a thynged yr iaith Gymraeg. Bu'r darlithydd yn ddysgwr brwd ei hun yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn.

Ers hynny daeth y ddarlith yn fwy arwyddocaol fyth fel datganiad cyhoeddus olaf Ron Davies cyn ei benderfyniad, ym mis Ionawr 2004, i ymddiswyddo o'r Blaid Lafur ar ôl deugain mlynedd o fewn y blaid.

Cyhoeddir damau o'r ddarlith ar dudalen 3 y *Cylchlythyr* hwn. Am y tro cyntaf, fel rhan o bolisi'r Llyfrgell o wella mynediad i'w



Ron Davies yn traddodi Darlith yr Archif Wleidyddol Gymreig, 2003

chyhoeddiadau, gellir darllen testun cyfan y ddarlith ar dudalennau we'r Llyfrgell yn yr adran ar yr Archif Wleidyddol Gymreig. Fe'i cyhoeddir hefyd yn rhifyn nesaf *Cylchgrawn Llyfigell Genedlaethol Cymru*.

Llais Llafur

Ceir o fewn papurau Goronwy O. Roberts AS y soniwyd amdanynt yn y *Cylchlythyr* diwethaf copïau o'r daflen prin iawn *Llais Llafur* a gylchredwyd gan nifer o ymgeiswyr Llafur cenedlaetholgar yng ngogledd-orllewin Cymru yn ystod ymgyrch etholiad cyffredinol 1945. Mae'r daflen yn argymhell nifer o bolisiau pellgyrhaeddol, yn eu plith penodi Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, sefydlu corfforaeth radio ac awdurdod cynllunio economaidd cenedlaethol, cyfyngu ar symud gweithwyr allan o Gymru, a gwella ar y cysylltiadau rhwng gogledd a de Cymru drwy adeiladu traffordd, gwella'r cyfleusterau trafnidiaeth a mabwysiadu polisi addysg ddiwygiedig.

Cylchredwyd y datganiad hwn (heb sicrhau bendith Y Blaid Lafur yn ganolog na Chyngor Llafur Cymru) yn eu hetholaethau, gydag ychydig o amrywiadau, gan Cledwyn Hughes (Sir Fôn), Huw Morris-Jones (Sir Feirionnydd), W. Elwyn Jones (Bwrdeistrefi Caernarfon) a Goronwy O. Roberts (Sir Gaernarfon).

Yr Archif Wleidyddol Gymreig

Sefydlwyd yr Archif Wleidyddol Gymreig yn 1983 i gydlynw'r gwaith o gasglu tystiolaeth ddogfennol o bob math am wleidyddiaeth Cymru. Cesglir cofysgrifau a phapurau pleidiau gwleidyddol, gwleidyddion, mudiadau lled-wleidyddol, ymgyrchoedd a charfanau pwyso; taflenni, pamffledi, ac effemera printiedig eraill; posteri a ffotograffau; a thâpiau rhaglenni radio a theledu.

Aelodau o'r pwyllgor ymgyngorol:

Mr Andrew Green (Llyfrgellydd),
Dr Denis Balsom, Mr Ian Barton,
Yr Athro Emeritws Deirdre Beddoe,
Miss Beata Brookes, Mr Alun Burge,
Mr Cynog Dafis, Mr Darron Dupré,
Mr Aled Eirug, Mr Tom Ellis,
Mr Rhys Evans, Mr Gwyn Griffiths,
Mr Adam Higgitt, Yr Athro Deian
Hopkin, Mr Leigh Jeffes, Yr Athro
Aled G Jones, Mr D L Jones,
Dr Richard Wyn Jones, Mr David
Melding AC, Yr Arglwydd Morgan
o Aberdyfi, Mrs Julie Morgan AS,
Yr Athro Emeritws D Hywel E
Roberts, Yr Athro Duncan Tanner,
Dr Guto Thomas a thri aelod o staff
LIGC.

Am fwy o wybodaeth cysyllter â
Dr. J. Graham Jones

Yr Archif Wleidyddol Gymreig
Llyfrgell Genedlaethol Cymru,
Aberystwyth, Ceredigion, Cymru,
SY23 3BU

Tel: 01970 632866

Fax: 01970 632883

jgj@llgc.org.uk

www.llgc.org.uk/lc/awg_c_awg.htm

Pwyllgor Ymgynghorol

Cynhaliwyd 36ed cyfarfod o bwyllgor ymgynghorol yr Archif Wleidyddol Gymreig yn y Llyfrgell ar brynhawn Gwener, 7 Tachwedd 2003. Gwelwyd y nifer uchaf erioed o aelodau i fynychu cyfarfod o'r pwyllgor, a rhoddwyd croeso i bum aelod newydd: Mr Alun Burge, Mr Rhys Evans, Mr David Melding, Dr Guto Thomas a'r Athro Duncan Tanner.

Safodd yr aelodau mewn distawrwydd fel teyrnged i'r diweddar Mr D. Elwyn Jones, aelod hynod ffyddlon a chefnogol o'r pwyllgor byth ers ei sefydlu ym 1985. Fel olynnydd i Mr Jones, penderfynwyd gwahodd Mr Leigh Jeffes, Cyfarwyddwr y Blaid Geidwadol yng Nghymru, i ymuno â'r pwyllgor. Ers hynny mae Mr Jeffes yn garedig wedi cytuno i ymuno, ac edrychwn ymlaen at ei gwmmi a'i gyfraniad yn y dyfodol.

Cadarnhawyd y byddai'r Athro Emeritws Deirdre Beddoe yn traddodi'r ddeunawfed ddarlith flynyddol yn Saesneg ar 5 Tachwedd 2004 ar thema'n ymwneud â swyddogaeth merched yng ngwleidyddiaeth Cymru. Bydd Mr Cynog Dafis yn rhoi'r ddarlith nesaf ar 4 Tachwedd 2005 ar y berthynas rhwng Plaid Cymru a'r Blaid Werdd. Mae'r ddau yn aelodau o'r pwyllgor ers rhai blynnydoedd. O 2004 ymlaen cynhelir y darlithiau o fewn darlithfa newydd y Llyfrgell Genedlaethol (yn hytrach nag yn yr Hen Goleg) sydd bron yn orffenedig bellach. Croeso cynnes iawn i bawb.

Prosiect Datganoli

Ar 17 Hydref 2003, bu Dr J. Graham Jones, Pennaeth yr Archif Wleidyddol Gymreig, yn bresennol mewn cyfarfod yn Sefydliad Ymchwil Hanesyddol, Llundain, o bwyllgor ymgynghorol prosiect a noddwyd gan yr ESRC yn dwyn y teitl 'Hunaniaeth Genedlaethol a Gwleidyddiaeth Sefydliadol: Datganoli yng Nghymru, 1885-2001'. Lleolwyd y prosiect o fewn Ysgol Hanes a Hanes Cymru, Bangor. Ei arweinwyr yw'r Athro Duncan Tanner, Bangor, a'r Athro Chris Williams, Prifysgol Morgannwg.

Cyflogwyd dau gynorthwywr ymchwil gan y prosiect: Dr Andrew Edwards ym Mangor, a Dr James McConnel, ym Mhrifysgol Hertfordshire lle ymchwiliodd dan gyfarwyddyd Dr Matthew Cragoe. Gwnaeth y prosiect ddefnydd helaeth o archifau'r Blaid Geidwadol Brydeinig, a phapurau Harold Wilson, y ddwy archif yng ngofal Llyfrgell y Bodley, Rhydychen, cofnodion newydd eu rhyddhau gan yr Archifdy Gwladol, papurau nifer o wleidyddion Llafur yng Nghymru ynghyd â chofnodion etholaethol, cofnodion a gynhyrchwyd gan yr ymgyrchoedd 'Ie' a 'Na' ym 1979, ag archif Plaid Cymru yn LIGC. Bu'r ymchwilwyr hefyd yn cyfweld nifer fawr o unigolion.

Y bwriad yw cyhoeddi dwy gyfrol sylweddol yn 2005: *Debating Nationhood and Government, 1885-1939* a *Welsh Devolution and British Politics since 1945*. Ceir o fewn y ddwy nifer o gyfraniadau gan aelodau o'r prosiect ynghyd ag ambell bennod gan gyfranwyr allanol.

LLYFRAU

Cofiant i Clem

Alun Wyburn-Powell, *Clement Davies: Liberal Leader* (Llundain: Politicos, 2003), 300 tt., £25.

Dyma'r cofiant cyntaf erioed i E. Clement Davies (1884-1962), AS Rhyddfrydol Sir Drefaldwyn, 1929-62, ac arweinydd y blaid, 1945-56. Mae'r awdur yn gwneud defnydd helaeth o'r casgliadau sylweddol o bapurau personol a gwleidyddol Davies a gyflwynwyd i'r Llyfrgell gan ei weddw ac yna ei fab ym 1967, 1977 a 1996.

Gwnaeth yr awdur ymchwil fanwl, gynhwysfawr, a lluniodd y gyfrol mewn arddull fywiog, afaelgar. Defnyddiodd nifer o ffotograffau o'r albwm luniau teuluol. Llwyddodd hefyd i sicrhau cydbwysedd deniadol rhwng bywyd personol a theuluol lliwgar Clem Davies â'i yrfa nodedig fel gwleidydd, arweinydd ei blaid, AS etholaethol a ffigwr cyhoeddus blaenllaw.

Ceir ail-asesiad gofalus o'r digwyddiadau pwysicaf ym mywyd Davies, yn eu plith marwolaeth drasig tri o'i blant, y rhan a chwaraeodd yn disodli Neville Chamberlain fel Prif Weinidog ym mis Mai 1940, a'i benderfyniad i wrthod gwahoddiad Churchill i ymuno â'r Cabinet fel y Gweinidog Addysg yn hydref 1951. At ei gilydd, mae'r gyfrol yn llawn gwybodaeth, yn ddifyr i ddarllen ac yn llenwi bwlch amlwg.

Bwriad yr awdur bellach yw ymchwilio i fywyd a gyrfa yr Uwchgaptan Gwilym Lloyd-George, Is-iarll Tenby (1894-1967), gwleidydd Cymreig a Phrydeinig arall sydd heb dderbyn fawr ddim sylw gan haneswyr. Ceir rhai o'i bapurau yntau hefyd yng ngofal LIGC. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at ffrwyth y prosiect ymchwil hwn.

Beatrice Smith, *Stand Up and Sing: Côr Cochion Caerdydd, 1983-2003* (Y Lolfa, 2003), 96 tt., £6.95

Mae'r awdur yn weithgar o fewn Plaid Cymru yn ardal Caerffili ac yn gyson ei chefnogaeth i'r ymgyrch i sicrhau Senedd i Gymru. Hi hefyd yw un o gysylltiadau lleol yr AWG yn yr etholaethau. Sefydlwyd Côr Cochion Caerdydd ym 1983 a bu'n gyson ei gefnogaeth i achosion heddwch, cyfiawnder a rhyddid.

Bu'r côr yn gyfrifol am godi symiau sylweddol o arian i gefnogi achosion megis Cuba Cymru, CND a *Liberty*. Cyhoeddwyd y llyfryn darluniadol hynod ddeniadol hwn gan Wasg y Lolfa fel un o gyfres Dinas. Ceir ynddo fanylion am nifer fawr o achosion a digwyddiadau a sicrhodd gefnogaeth y côr ac argreffir yn y llyfr nifer fawr o ganeuon a thonau.



*Y Gwir Anrhydeddus
E. Clement Davies QC, AS*

Dyfyniadau allan o Ddarlith Ron Davies

Nid oedd gan Tony Blair yr un brwdfrydedd a gweledigaeth â'i rhagflaenydd John Smith. I Blair a 'Llafur Newydd', etifeddiaeth ddiangen oedd datganoli a fyddai, ar y gwaethaf, yn codi ofn ar etholwyr allweddol Canol Lloegr, beth bynnag ei bwysigrwydd yn yr Alban a Chymru. Roedd cydbwysedd grym wedi symud, a chrëwyd gofod gwleidyddol a ganiataodd i'r hen rwygiadau ail-ymddangos.

Hwyrach nad yw'r Cynulliad yn gyffrous, ond o leiaf mae o fewn ein cyrraedd. Mae'r sustem o bwyllgorau yn enwedig wedi llwyddo i oleuo'r broses o lunio polisiau, ac erbyn hyn mae Cymru'n arwain y gad yn meithrin yr ymarfer o'r llywodraeth yn ymgynghori â'r cyhoedd.

Nid oes llawer i awgrymu bod yr anghydraddoldebau a etifeddwyd gan Llafur Newydd ym 1997 wedi eu lleihau'n gymdeithasol na'n ofodol. Yn wir, ceir tystiolaeth gref i awgrymu iddynt gynyddu yn hytrach na lleihau, ac y bydd y tueddiadau hyn yn cynyddu eto o barhau'r gyda'r polisiau presennol.

Mae cyllidebau'r Gwasanaeth Iechyd a Llywodraeth Leol gyda'i gilydd yn llyncu bron i 75 y cant o gyllideb y Cynulliad. Os yw'n dderbyniol ac yn gyfiawn i rannu'r gwariant hwn ar sail angen yr unigolyn yng Nghymru, sut all fod yn iawn ac yn gyfiawn i beidio sicrhau'r fath wariant o fewn y Deyrnas Unedig ar yr un sail?

Ar hyd o bryd mae'r gwaethaf o bob byd gennym: rhaglen ddeddfwriaethol ddiddychymyg a diuchelgais wedi ei chyfyngu gan awydd Llywodraeth Llafur Newydd yng Nghaerdydd i beidio rhoi lles Cymru o flaen ei deymgarwch i Lywodraeth Llafur Newydd yn Llundain, a datblygu confensiynau yn y Senedd a'r Cynulliad sy'n sicrhau nad oes trafod ac archwiliad digonol ar yr ychydig ddeddfwriaeth a geir.

Mae'r rhain yn ddeusiadau caled, a dymunaf sôn am yr un anos o'r cyfan – yr iaith Gymraeg. Dwyieithrwydd yw'r norm ledled Ewrop. Dylem ymfalchio a manteisio ar y ffaith ein bod yn berchen ar iaith hynaf Ewrop gyda'i chyfraniad unigryw i'n bywyd diwylliannol a llenyddol. Ar yr un pryd mae gennym yr iaith Saesneg, iaith rhyngwladol busnes, masnach a thelathrebu. Paham mae ein hyder a'n dealltwriaeth mor ddiffygiol nes ein bod yn methu gweld potensial ein dwyieithrwydd fel grym i'n uno ac ehangu ein cyfle i gynyddu'n bersonol, yn ddiwylliannol, yn addysgol ac yn economaidd?

Plaid Cymru yn Sir Gaerfyrddin

Mae Mr Rhodri Glyn Thomas, AC Plaid Cymru dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, wedi cyflwyno i ofal y Llyfrgell Genedlaethol grŵp sylweddol o ffotograffau hynod ddiddorol a ddaeth i'r golwg wrth i staff lanhau swyddfa Plaid Cymru yn Wind Street, Rhydaman.

Mae cannoedd o luniau yn eu plith, y cyfan mewn cyflwr arbennig o dda, ac maent yn dyddio o'r pumdegau cynnar hyd at ganol y 1970au. Llundiau o'r Dr Gwynfor Evans yw'r mwyafrif ohonynt, llawer yn ymwneud â'i fuddugoliaeth adeg is-etholiad Caerfyrddin, 1966. Mr Cyril Jones, asiant etholaethol Dr Evans am flynyddoedd lawer, a gadwodd y ffotograffau'n wreiddiol, ac mae'n bosibl

iawn mai hen swyddfa'r Plaid yn Heol y Dŵr, Caerfyrddin, oedd eu cartref gwreiddiol. Yn y Cynulliad Cenedlaethol mae Mr Thomas yn cynrychioli rhan o etholaeth Dr Gwynfor Evans, 1966-70 a 1974-79.

Mae rhai o'r lluniau yn dangos cyfarfodydd a drefnwyd gan ymgyrch wydn Senedd i Gymru yn ystod y 1950au cynnar ac mae eraill yn bortreadau o unigolion blaenllaw lleol, yn eu plith Dr D. J. Williams, Abergwaun (1885-1970). Mae'r mwyafrif heb eu cyhoeddi o'r blaen, a byddai staff y Llyfrgell yn croesawu unrhyw gymorth i adnabod rhai o'r lluniau.



Dr Gwynfor Evans yn cyfarfod ag amaethwr ym marchnad Caerfyrddin, 1972. (Trwy caniatâd Mr Arwel Davies, Caerfyrddin)

Syr Goronwy Daniel

Mae'r Llyfrgell wedi derbyn gan ei blant grŵp bychan o bapurau'r diweddar Syr Goronwy Daniel (1914-2003), Prifathro Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, rhwng 1969 a 1979. Maent yn adlewyrchu ei yrfa nodedig ym mywyd

cyhoeddus Cymru, yn fwyaf arbennig ei gysylltiad ag addysg uwch, blynyddoedd cynnar y Swyddfa Gymreig (lle gwasanaethodd fel ei Hysgrifennydd Parhaol cyntaf, 1964-69), y celfyddydau, darlledu, astudiaethau economaidd ac ystadegol, a datganoli.

Mr D. Elwyn Jones

Mae Mr Jones, aelod o bwyllgor ymgynghorol yr AWG ers blynyddoedd, a fu farw'n sydyn yng ngwanwyn 2003, wedi ewyllysio i'r Llyfrgell y papurau gwleidyddol a gasglodd fel asiant y Blaid Geidwadol yng ngogledd Cymru ac asiant gwleidyddol Syr Wyn Roberts. Ceir yn eu plith ohebiaeth, dyddiaduron, ffotograffau, cylchlythyrau a ddosbarthwyd gan y Blaid Geidwadol i'w asiantau lleol, cofnodion yn tarddu o nifer o ymgyrchoedd etholiadol, a deunydd printiedig.

David Melding

Cyflwynodd Mr Melding, aelod newydd o bwyllgor ymgynghorol yr AWG, gopi o destun ei araith nodedig 'New Dawn or Sunset Boulevard?: What role for the Welsh Conservative Party?' a draddododd i Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, ar 27 Hydref 2003.

Cyflwynodd hefyd gopi o'i 'Nodyn Briffio ar y ddadl yn erbyn Cynulliad i Gymru', dogfen hynod ddadlennol a luniodd nôl yn Awst 1997. Cyfeirnod y ddau ohonynt bellach yw NLW ex 2243.

Papurau Cynog Dafis

Mae Mr Cynog Dafis wedi ychwanegu nifer o flychau o'i bapurau at ei archif yn y Llyfrgell Genedlaethol. Ceir yn eu plith grŵp o lythyrau, o'r 1960au, oddi wrth Mrs Elizabeth E. Williams, Gwaelod-y-garth, gweddwr'r Athro Griffith John Williams, yn bennaf yn ymateb i weithgareddau Mr Dafis ar ran Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Ceir hefyd gopiâu o faniffesto cyntaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, 1972, a luniwyd gan Cynog Dafis, a'r rhagymadrodd i'r cyfieithiad Saesneg ohono gan Harri Webb, ynghyd â gohebiaeth a thorion o'r wasg perthnasol yn ymateb i ymddangosiad y dogfennau hyn.

Ceir hefyd ymhlith y papurau ffeiliau a gasglodd Mr Dafis cyn ei ethol i'r senedd ym 1992, ac eraill yn ymdrin â'r berthynas rhwng Plaid Cymru a'r Blaid Werdd rhwng 1992 a 1997.

Rydym yn argymhell y dylid gwneud ymholiadau ynglŷn â thelerau derbyn y papurau cyn ymweld â'r Llyfrgell.

Ceir gwaharddiad ar weld neu atgynhyrchu nifer o gasgliadau diweddar yr AWG.